# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Ionawr 2003 i'w hateb ar 4 Chwefror 2003

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer trethdalwyr yn y Gymru wledig. (OAQ22149)

**2. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei rôl fel cydlynydd materion trawsbynciol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ22142) **W**

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog a'i Lywodraeth yn bwriadu'u cymryd i wella safonau addysgiadol yng Nghaerdydd. (OAQ22130)

**4. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gwelyau mewn cartrefi gofal a ddarperir yn y Gogledd-ddwyrain. (OAQ22132)

**5. Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynghylch gweithgarwch Awdurdod Datblygu Cymru yn Sir Gaerfyrddin. (OAQ22135)

**6. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau sydd gan eich llywodraeth mewn golwg i ddileu amddifadedd ac anghyfartaledd cymdeithasol ymhlith trigolion Canol De Cymru. (OAQ22131) **W**

**7. Janice Gregory (Ogwr);** Pa gamau y mae Llywodraeth y Prif Weinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau rheilffordd yn etholaeth Ogwr. (OAQ22126)

**8. David Melding (Canol De Cymru);** Pa gyfarfodydd y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda sefydliadau ynghylch effeithiau cynllun cefnffordd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ar ddatblygu economaidd. (OAQ22148)

**9. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Beth sy'n cael ei wneud i annog pobl ifanc i fod yn rhan o'r broses wleidyddol yng Nghymru. (OAQ22133)

**10. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y mae polisïau Amgylcheddol ei Lywodraeth wedi'i chael ar Orllewin De Cymru. (OAQ22136)

**11. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch effaith rhaglen Arian Amcan Un ar y De-ddwyrain. (OAQ22129)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hybu ailgylchu yng Nghymru. (OAQ22138) **R**

**13. Gwenda Thomas (Castell-nedd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddatblygiad yr Undebau Credyd yng Nghymru. (OAQ22147)

**14. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd targed y Llywodraeth yn y ddogfen GwellCymru o greu 34,000 o swyddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd erbyn Mawrth 2003. (OAQ22150)

**15. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa weithdrefnau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu dilyn i bennu'r targedau a nodir yn natganiadau polisi'r Llywodraeth a pha fethodoleg sy'n cael ei defnyddio. (OAQ22146)